DAVIES, STEPHEN (1790 - 1858), bardd

Enw: Stephen Davies
Dyddiad geni: 1790
Dyddiad marw: 1858
Priod: Catherine Davies (née Price)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Emlyn Wynne Evans

O Ddyserth, a adnabyddid hefyd wrth yr enw 'Stephan'; ganwyd ym Mhrestatyn, Sir y Fflint, 8 Tachwedd 1790. Symudodd ei rieni i fyw i'r Dyserth tra yr oedd ef eto'n ieuanc. Yn 1822 priododd Catherine Price o Moelfra, ger Abergele, yr hon a fu farw yn 1835. Mae ei farwnad ar farwolaeth ei wraig yn gyfansoddiad teimladwy a thyner. Cyhoeddwyd llawer o'i gynhyrchion mewn cylchgronau Cymreig, ac y mae ei farddoniaeth o safon uchel. Yr oedd yn ymgeisydd eisteddfodol llwyddiannus, ac ymhlith ei gynhyrchion gorau ceir 'Hiraeth ar ol mabolaeth,' a enillodd y wobr yn eisteddfod y Gordofigion yn Lerpwl, 1840, ac 'Ymddiddan rhwng y bardd ac Amser.' Bu farw 6 Ebrill 1858, a chladdwyd ef yng Ngalltmelyd, ger Prestatyn.

Awdur

Emlyn Wynne Evans, (1985)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734410

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Evans, E. W., (1953). DAVIES, STEPHEN (1790 - 1858), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-STE-1790

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government